# Casgliad data presenoldeb: 2024/25

Y casgliad data presenoldeb ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/2025

## Cwestiynau cyffredin: Rhestr gyfeirio gyflym

**Dyddiad cyhoeddi**: 07 Chwefror 2025
**Fersiwn**: 1.0

# Casgliad data presenoldeb: 2024/25

**Cynulleidfa**

Penaethiaid ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol.

**Trosolwg**

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'n cwestiynau cyffredin hyn i helpu'r gynulleidfa uchod i gydymffurfio â'u dyletwyddau statudol.

**Camau angenrheidiol**

Rhaid i bob ysgol babanod, cynradd, uwchradd, canol ac arbennig a gynhelir yng Nghymru gwblhau dychweliad presenoldeb.

**Manylion pellach**

Os oes angen mwy o gyngor arnoch ar lenwi unrhyw ran o'r casgliad presenoldeb yma, cysylltwch â'ch awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

Dylid anfon ymholiadau am y ddogfen hon at:

Strategaeth Rheoli Gwybodaeth
Tîm Casglu Data
Cangen Gwybodaeth Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 5014 / 0300 025 3358
E-bost: IMS@llyw.cymru / PLASC@llyw.cymru

@LlC_Addysg

@AddysgCymru

**Copïau ychwanegol**

Mae'r ddogfen yma ar gael ar wefan Llywodaeth Cymru yn llyw.cymru.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron Chwefror 2025
WG48272

**1. Effeithiodd y tywydd gwael a gawsom yn ystod y gaeaf eleni ar fy ysgol; sut dylwn i gofnodi hynny fel rhan o'r datganiad presenoldeb?**

Os bydd ysgol yn cau yn gyfan gwbl oherwydd tywydd gwael, nid oes eisiau cymryd y gofrestr bresenoldeb. Os bydd ysgol yn parhau ar agor i rai o'i disgyblion ond bod y tywydd yn rhwystro eraill rhag cyrraedd gan nad yw'r bysiau ysgol yn rhedeg a.y.b, rhaid cofnodi absenoldebau'r disgyblion trwy ddefnyddio Cod Y, sef heb fod angen mynychu.

Er enghraifft: os yw ysgol ar agor am 360 o sesiynau (180 diwrnod) o fewn blwyddyn academaidd ac mae myfyriwr yn mynychu pob un o'r 180 diwrnod, yna byddent yn cyflawni cofnod presenoldeb o 100%. Os yw'r myfyriwr yn methu mynychu ysgol un diwrnod o ganlyniad i dywydd eithafol, yna gellir cofnodi ei absenoldeb gan ddefnyddio cod Y (heb fod angen mynychu). Pan ddefnyddir cod Y bydd System Rheoli Gwybodaeth yr Ysgol yn ailgyfrif nifer y sesiynau mae rhaid i'r myfyriwr fynychu o 360 i 358 (179 diwrnod), gan ganiatáu cofnod presenoldeb o 100% i'r myfyriwr.

Os yw'r ysgol yn agor er gwaethaf tywydd gwael ac yn ymwybodol y byddai myfyriwr wedi gallu cyrraedd yr ysgol yn ddiogel ond heb wneud, wedyn dylai absenoldeb y myfyriwr cael ei gofnodi gan ddefnyddio'r cod absenoldeb priodol.

**2. Mae disgybl yn derbyn ei addysg yn y cartref yn y bore. Nid yw'n derbyn unrhyw fath o addysg yn y prynhawn. Pa god ddylwn i ei ddefnyddio ar gyfer sesiwn cofrestru'r prynhawn?**

At ddibenion amddiffyn plant, bydd angen i sesiwn cofrestru'r prynhawn gael ei gofnodi fel absenoldeb awdurdodedig. Os yw'r plentyn yn derbyn addysg yn y cartref oherwydd gofynion meddygol y disgybl yna dylid defnyddio Cod 1 ar gyfer cofrestru'r prynhawn. Os yw plentyn yn derbyn addysg yn y cartref at ddibenion ar wahân i ofynion meddygol rhaid defnyddio Cod C ar gyfer cofrestru'r prynhawn.

**3. Os bydd disgybl wedi'i wahardd ond yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion yn y cyfamser, sut mae cofnodi ei bresenoldeb?**

Tra bydd plentyn wedi'i wahardd, ni chaiff fynychu'r ysgol y cafodd ei wahardd ohoni, a byddai'n rhaid ei gofrestru fel absenoldeb awdurdodedig gan ddefnyddio cod E, hyd yn oed os bydd yn mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) neu ryw ddarpariaeth arall yn ystod y cyfnod perthnasol. Mewn sefyllfaoedd tebyg, dylai'r ysgol ddefnyddio cod E ac nid cod B - addysgir oddi ar y safle, oni bai bod yr ysgol wedi gwahardd y plentyn yn benodol o'r ysgol a heb wahardd y disgybl o'r ddarpariaeth UCD ar y diwrnodiau y mae nhw i fod i fynychu'r UCD (gweler adran 1.7.3 Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion). Os trefnwyd darpariaeth yn unol ag 1.7.3, yna dylid cofnodi presenoldeb ar y diwrnodiau hyn fel B neu D yn dibynnu a ydynt wedi'u cofrestru'n ddeuol ai peidio.

**4. Bydd nifer o ysgolion (Babanod/Cynradd) yn cyfuno o fis Medi. A oes unrhyw argymhellion gennych ar gyfer dychwelyd data presenoldeb mewn perthynas â disgyblion yr ysgolion sydd wedi cyfuno?**

Cewch naill ai gyflwyno'r data o'r ddwy hen ysgol ym mis Medi, neu caiff yr ysgol newydd gyflwyno'r data i gyd. Byddai'n rhaid ichi roi gwybod inni ymlaen llaw pa ffordd sydd orau gennych er mwyn inni allu bod yn siŵr bod y niferoedd a'r enwau wedi'u nodi'n gywir ar Fenter Cyfnewid Data Cymru (DEWi) ar gyfer casglu data ym mis Medi. O ran ystod y dyddiadau, rhaid bod y data'n cael eu casglu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan.

**5. Rydym yn ystyried symud y cofrestru prynhawn, a'i wneud yn union cyn torri am ginio. A gawn ni wneud hyn?**

Na chewch. O dan y gyfraith, mae'n rhaid i ysgolion lenwi'r gofrestr bresenoldeb ar **ddechrau sesiwn y bore** a hefyd unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Rhaid i'r cofrestru prynhawn ddigwydd ar ddechrau neu yn ystod y sesiwn, nid ar ddiwedd y sesiwn flaenorol nac yn ystod y toriad rhwng y sesiynau.

**6. Mae un o'n hysgolion uwchradd wedi lanlwytho'i data presenoldeb ar DEWi. Mae'n ymddangos imi fod yr adroddiad yn Word yn rhoi'r data mewn canrannau, ond bod y pdf yn defnyddio rhifau. A oes modd newid hynny fel y gellir lawrlwytho rhifau a chanrannau mewn Word ac mewn pdf fel ei gilydd?**

Cafodd y ddau fformat eu creu i ddangos y ddau dabl, y canrannau a'r rhifau gwirioneddol, ar draws dwy dudalen. Felly, gallwch ddewis unrhyw un o'r fformatau ar gyfer pa bynnag dabl yr ydych am ei ddefnyddio.

**7. A allwch gadarnhau a fydd data presenoldeb yn cael eu casglu ar gyfer ysgolion arbennig?**

Bydd data presenoldeb yn cael eu casglu ar gyfer ysgolion arbennig, ond fe'u cesglir ar bapur, nid ar lefel y disgyblion y'u cesglir, a Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud hyn yn uniongyrchol.

**8. Beth yw'r cod cywir ar gyfer disgyblion sy'n gorffen eu harholiadau ddiwedd mis Mehefin gan mai mis Gorffennaf yw diwedd y tymor yn swyddogol.**

Mae'n dibynnu ar grŵp blwyddyn y disgybl. Dylai pob dosbarth, ac eithrio blwyddyn 11, fod yn ôl yn yr ysgol yn cael addysg. Os nad ydynt, dylent gael eu cofnodi'n absennol. Mae'r sefyllfa ychydig yn wahanol i ddisgyblion blwyddyn 11 am na fyddai disgwyl iddynt ddod yn ôl. Am y rheswm hwn, dim ond hyd at ŵyl y banc olaf mis Mai y byddwn yn casglu data am bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd oherwydd yr amrywiadau wrth gofnodi presenoldeb.

**9. Mae gen i ddisgybl sy'n cael ei addysgu gartref 2 ddiwrnod yr wythnos o dan ein polisi dysgu hyblyg. Pa god ddylwn i ei ddefnyddio ar gyfer y diwrnodau pan nad yw'r disgybl yn yr ysgol?**

Bydd angen ichi ddefnyddio Cod C. Fel ysgol, rydych wedi cytuno i'r trefniant dysgu hyblyg ac wedi awdurdodi absenoldeb y disgybl.

**10. Pa god ddylwn i ei ddefnyddio pan fydd staff addysgu ar streic?**

Bydd angen ichi ddefnyddio Cod Y. Efallai y bydd rhai o'r staff wedi mynd i'r ysgol, felly efallai mai dim ond rhan o'r ysgol yr oedd angen ei chau.

**11. Pen derfynodd un disgybl symud i ysgol arall. Cafodd ei gadw ar y gofrestr nes iddo symud i'r ysgol newydd, ond nid oedd yn dod i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. A allaf ddefnyddio cod X neu Y ar gyfer y sesiynau?**

Na chewch. Os nad oedd y disgybl yn mynd i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn absennol o'r ysgol.